

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 17eg Ebrill 2019 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, B. Mellor, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, T. Thomas ac R. J. Turner.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

162. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd Caplan y Maer, Archddiacon Llanelwy, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

163. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Ball, Ms J. Hughes, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, A. J. Rutherford a Miss C. L. Williams.

164. CYFLWYNIAD I ENILLWYR CYSTADLEUAETH BARDDONIAETH PLANT G2G

Adroddodd y Maer nad oedd cynrychiolwyr G2G yn anffodus yn medru bod yn bresennol, ac y byddai'r cyflwyniad yn cael ei ail-drefnu ym Mharlwr y Maer cyn diwedd ei blwyddyn yn y swydd.

165. CADEIRIAU COFFA'R CYNULLIAD: CYFLWYNO LLYFR COFFA I'R CYNGOR

Croesawodd y Maer Mr Toni Vitti i'r cyfarfod a'i wahodd i annerch y cyngor.

Adroddodd Mr Vitti yn fyr ar ei ddiddordeb a'i ymchwil hyd yma ar ffoaduriaid o Wlad Belg sydd wedi setlo yn y Rhyl ers y Rhyfel Byd Cyntaf, a'i waith diweddaraf gyda Chadeiriau Coffa'r Cynulliad. Arsefydliad teithiol pum mlynedd drwy ynysoedd Prydain o bum cadair o Eglwys St Audomarus Passchendaele, pob un yn cynrychioli rhai a fu farw ym mhob blwyddyn o'r Ryfel Byd Cyntaf (1914-1918). Roedd y daith yn cynnwys yr Eglwys Farmor ym Modelwyddan, ac yn ddiweddar yr holl wledydd lle roedd pobl wedi eu geni a gollodd eu bywydau, ac fe'u gwahoddwyd i enwebu cadair i fod yn rhan o arddangosfa barhaol yn Amgueddfa Caeau Flanders yn Ypres.

Roedd Mr Vitti wedi dewis cadair o un o gartrefi ffoaduriaid Gwlad Belg yn y Rhyl.

Roedd llyfr coffa bychan ar Gadeiriau Coffa'r Cynulliad wedi ei gynhyrchu gyda thudalen ar bob cadair, ac fe gyflwynodd Mr Vitti gopi i'r Maer.

Derbyniodd y Maer y llyfr, a fyddai'n cael ei arddangos ym Mharlwr y Maer.

Llongyfarchodd y cyngor Mr Vitti a diolch iddo am ei waith gyda Chadeiriau Coffa'r Cynulliad ac am gynrychioli Cymru a chyfraniad balch y Rhyl.

166. CYFLWYNO ARWYDDLUN Y DREF

Ymhellach i gofnod rhif 143 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Chwefror 2019, cyflwynodd y Cynghorydd Mrs D. L. King i'r Maer ffotograff ohoni yn cyflwyno arwyddlun y dref i Mr Gaston Browne, Prif Weinidog Antigua, yn Antigua yn gynharach y mis hwn.

Byddai'r ffotograff yn cael ei arddangos ym Mharlwr y Maer.

167. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 20fed Mawrth 2019 - Rhifau Cofnod 149-161

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W M Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd B Mellor a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Mawrth 2019 - Rhifau Cofnod 58-60

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W M Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 3ydd Ebrill 2019 - Rhifau Cofnod 61-64

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W M Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 3ydd Ebrill 2019 - Rhifau Cofnod 116-126

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

168. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at y digwyddiadau a fynychwyd ganddi hi a'r Dirprwy Faer ac yn benodol at agor SC2, beirniadu'r gystadleuaeth wyau Pasg yn Ysgol Bryn Hedydd a gofynnodd i'r Cynghorydd Miss S L Roberts gyflwyno ei llongyfarchiadau i Ysgol Plas Cefndy ar yr adroddiad gwych gan Estyn yn ddiweddar.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

169. CYFLWYNIAD: RNLI

Ymhellach i gofnod rhif 131 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Ionawr 2019, croesawodd y Maer Mr Brian Allen, Swyddog Diogelwch Cymunedol, i'r

cyfarfod a'i wahodd i annerch y cyngor ar ei rôl fel rhan o ymgyrch 'Parchu'r Dŵr' yr RNLI.

Adroddodd Mr Allen:

- Mai ef oedd yr unig Swyddog Diogelwch Cymunedol yng Ngogedd Cymru a bod ei faes cyfrifoldeb eleni wedi ei leihau i Rhos Point hyd at Dalacre.
- Collirr 190 o fywydau bob blwyddyn oherwydd boddi yn y môr a bod ymgyrch 'Parchu'r Dŵr' yn anelu at hanerur ffigwr hwnnw.
- Un o'i dasgau oedd cynhyrchu Cynllun Achub Bywydau Cymunedol ar gyfer yr ardal.
- Byddai'r Rhyl yn cael bad achub newydd ym mis Hydref eleni.
- Roedd ganddynt berthynas agos gyda Gwylwyr y Glannau EM ger yr orsaf RNLI, a oedd yn sefyllfa eithaf unigryw.

Yna chwaraeodd Mr Asllen ffilm fechan ar ddiogelwch yn y dŵr.

Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau'r aelodau, dywedodd Mr Allen:

- Yn anffodus roedd nifer y marwolaethau'n eithaf cyson bob blwyddyn ac yn cynyddu mewn cyfnodau hir o dywydd braf, fel y llynedd.
- Roedd yr Ysgol Pro Kitesurfing ar Rodfa'r Dwyrain yn y Rhyl yn un o 'bartneriaid diogelwch' yr RNLI.
- Roedd yn ceisio cael gosod 'bagiau tafladwy' chwythadwy mewn loceri yn yr harbwr ac roedd yn gweithio gyda'r Harbwrfeistr i gyflawni hyn, gobeithio.
- Roedd gan yr RNLI addysgwyr wedi eu hyfforddi, a'u gwaith nhw oedd mynd i ysgolion i gyflwyno'r neges diogelwch yn y dŵr. Roedd yn rhan o'i swydd ef i adnabod ysgolion a rhoi'r wybodaeth i'r addysgwyr.
- Dynion 16-39 oedd oedd 70% o'r rhai a oedd yn boddi a bod 40% o bobl heb fwriadu gwlychu eu traed pan aethant i drybini.

Diolchodd y Maer i Mr Allen am fynychu'r cyfarfod, a oedd yn llawn gwybodaeth.

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed a dosbarthodd fersiwn newydd gyda thaliad ychwanegol (taleb rhif 730).

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
724	Sunshine Events	1,230.00	Gweithgareddau ar gyfer Digwyddiad ar Thema'r Syrcas Gorffennaf 2019
725	Conrad	227.12	Archeb Papurach Mawrth 2019
726	Cyngor Tref Prestatyn – Cyfrif Elusen	70.00	2 x Docyn i ginio elusen ar 10fed Mai 2019
727	James Ball	150.00	Lwfans Treuliau'r Aelodau 2019/20
728	Fool's Paradise Ltd	1,077.60	Artistiaid Bouncing Bunnies ar gyfer digwyddiad y Pasg
729	NMWATC	32.00	Cinio i 2 gynrychiolydd ar gyfer cyfarfod 12fed Ebrill 2019
730	Sunshine Events	1,098.00	Gweithgareddau Diwrnod Hwyl y Maer 4ydd Mai 2019
	Cyfanswm taliadau	£3,884.72	

Talwyd **Taleb 729** ar 11eg Ebrill 2019 fel Taliad Argyfwng (a gymeradwywyd gan Clerc y Dref) gan fod angen talu cyn y cyfarfod (cawsom rybudd hwyr o ddyddiad y cyfarfod).

Ychwanegwyd **Taleb 730**. Roedd angen talu'r anfoneb cyn y digwyddiad ar 4ydd Mai 2019.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad a'i lofnodi gan ddau gynghorydd.

171. EITEMAU ER GWYBODAETH

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion brys i'w codi.

172. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

173. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

174. GWYBODAETH: COFNODION CYFRINACHOL

Cyfeiriodd y Maer at y cofnodion canlynol (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) a gyflwynwyd er gwybodaeth i'r aelodau.

Pwyllgor CSG - 11eg Mawrth 2019 - Rhifau Cofnod 67-73

PENDERFYNWYD derbyn y cofnodion.

175. PWYLLGOR CSG – GWARIANT AR WASANAETHAU A GOMISIYNWYD

Adroddodd Clerc y Dref bod y Pwyllgor CSG wedi argmell bod y cyngor yn parhau i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer y swydd Cyngorydd Tlodi Tanwydd gyda Chyngor ar Bopeth a swydd y Swyddog Apeliadau yn y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau ar gyfer 2019/20.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhellion a bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at y ddau fudiad i ddiolch iddynt am wasanaethau hanfodol, mewn cyfnod o angen mawr gyda llai o adnoddau, y maent yn eu darparu i bobl y Rhyl.

176. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:

Dyddiad: